Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Dean’s Lasers and Aesthetics, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 18 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83504-954-9



© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ................................................... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ................................................... 8

    - Ansawdd Profiad y Claf ................................................ 8
    - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .................................. 11
    - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ................................. 13

4. Y camau nesaf ............................................................ 14

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............. 15

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................ 16

Atodiad C – Cynllun gwella ................................................... 18

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Dean’s Lasers and Aesthetics, Unit 3 Rear of Norman Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd ar 18 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Dean’s Lasers and Aesthetics yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn lân ac mewn cyflwr da.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddaru'r canllaw i gleifion i gynnwys costau, crynodeb o safbwyntiau'r cleifion a manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Nodwyd gennym fod Dean’s Laser and Aesthetics yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos dealltwriaeth dda o sut a phryd i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd y diffoddwyr tân wedi bod yn rhan o'r archwiliad cynnal a chadw blynyddol gofynnol gan unigolyn cymwys.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg tân cyfredol ar waith.
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff sbectol diogelwch sydd wedi'u difrodi eu newid
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copi llawn o'r asesiad risg amgylcheddol cyfredol gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig a'r ystafell driniaeth wedi'u dylunio a'u gorffen i safon uchel
- Roedd yr ystafell drin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Rheolwr y clinig oedd yn gyfrifol am reoli Dean’s Lasers and Aesthetics o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd da i'r cleifion.

Gwelsom ei fod yn gweithio'n dda iawn gyda'i bartner a oedd yn berchen ar y busnes y drws nesaf iddo. Drwy weithio ar y cyd â'i gilydd, er bod hynny fel busnesau ar wahân, roeddent yn gallu atgyfnerthu eu sgiliau a'u gwybodaeth i sicrhau bod y clinig yn cael ei lywodraethu a'i reoli'n dda.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod defnyddwyr awdurdodedig y peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser
- Roedd y wybodaeth i gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.
- Gwelsom gydberthynas waith gydweithredol â'r busnes cyfagos.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o dri holiadur wedi'u cwblhau.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"… mae'r clinig yn lân iawn ac mae'n wybodus iawn a gwnaeth i mi deimlo'n gyfforddus ar bob cam...”*
> *"… mae'r clinig yn gyfeillgar a phroffesiynol iawn a gwnaeth i mi deimlo'n gyfforddus…”*
> *“Cafwyd gwasanaeth gwych, gofalgar.”*

**Diogelu a gwella iechyd**

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu hanes meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol. Cofnodwyd y wybodaeth hon ar system cofnodion cleifion diogel, cyn i glaf gael unrhyw driniaeth gychwynnol. Gofynnwyd i gleifion am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol cyn unrhyw driniaethau dilynol a chofnodwyd hyn ar eu cofnodion.

**Urddas a pharch**

Gwelsom mai un ystafell triniaeth laser yn unig oedd gan Dean’s Aesthetics and Lasers ar y llawr cyntaf. Gwelsom fod yr ystafell yn lân, yn daclus ac yn drefnus iawn. Roedd gan yr ystafell fleinds a drws yr oedd modd ei gloi lle gallai'r cleifion newid mewn preifatrwydd. Roedd tywelion ar gael i'r cleifion ddefnyddio drwy gydol eu triniaethau er mwyn diogelu eu hurddas. Cadarnhawyd bod y drws wedi ei gloi yn ystod triniaeth er mwyn cynnal preifatrwydd.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion ddod â hebryngwr gyda nhw ar gyfer eu hymgynghoriad a'u triniaethau.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni gwybodaeth ar gael i gleifion. Gwnaethom edrych ar y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd i ni gan y

rheolwr cofrestredig. Roedd y Datganiad o Ddiben i'w weld yn cydymffurfio â'r rheoliadau.
Nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac felly roedd angen ei hadolygu. Yn benodol, nid oedd y canllaw yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion a'r manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn ogystal, nid oedd y canllaw yn cyfeirio at ganllawiau clir ar gostau ar gyfer triniaethau. Fodd bynnag, roedd rhestr prisiau ar wahân ar gael ar-lein.

**Rydym yn argymell i'r gwasanaeth ddiweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.**

Roedd y ddogfennaeth ar gael yn Saesneg un unig a dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y lleoliad yn siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym na chafwyd unrhyw geisiadau am gyfieithiad mewn unrhyw iaith arall.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Roedd tystiolaeth bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig yn ogystal â chanllawiau ôl-ofal.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol. Roedd y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu cydsyniad ysgrifenedig ar ddechrau pob cwrs o driniaeth.

**Cynllunio a darparu gofal**
Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd nodiadau cleifion unigol manwl ar gael ar system ddigidol y clinig, gyda thystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd tystiolaeth i ddangos bod unrhyw newidiadau mewn cyflwr meddygol, a chydsyniad i driniaeth, yn cael eu cofnodi ym mhob apwyntiad.

Dywedwyd wrthym y bydd systemau TG y clinig yn anfon e-bost â chanllawiau ar gyfer ôl-ofal cleifion yn awtomatig ar ôl pob triniaeth.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Cawsom ein sicrhau bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn gydag amser ychwanegol yn cael ei ddarparu cyn ac ar ôl apwyntiadau o'r fath er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion wrth iddynt gyrraedd a gadael.

Roedd y clinig a'r ystafell driniaeth ar lawr cyntaf y safle. Nid oes gan y safle lifft ac oherwydd telerau'r brydles, nid oedd ganddynt hawl i osod cyfleuster o'r fath. Felly, ni allai'r clinig gynnig triniaeth i gleifion ag anawsterau symudedd. Mae cyfeiriad at y broblem mynediad hon yn y datganiad o ddiben.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y ceir adborth gan gleifion drwy adolygiadau ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol ac y gallai'r anfonwr fod yn ddi-enw os bydd angen.Dywedwyd wrthym bod adborth ad hoc i'w gael ar ôl triniaeth ac mewn apwyntiadau dilynol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym na chynhaliwyd unrhyw  ddadansoddiad ffurfiol am na chafwyd unrhyw gwynion.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom fod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod y safle wedi cael archwiliad o'r system drydanol ym mis Ebrill 2023. Fodd bynnag, roedd yr asesiad risg tân wedi dyddio. Roedd y rheolwr cofrestredig yn credu y byddai asesiad risg newydd wedi'i gynnal ar yr un adeg â'r archwiliad system, ond nid oedd yn sicr.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg tân cyfredol ar waith.**

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus iawn yr olwg. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau â rheolwr y clinig a'r rheolwr cofrestredig gan ddod i'r casgliad eu bod yn briodol i amddiffyn y cleifion rhag achosion o groes-heintio.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Dim ond cleifion dros 18 oed y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w trin. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu. Roedd polisïau ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm atgyfeirio diogelu lleol.

Eglurodd y rheolwr cofrestredig nad oedd plant yn cael mynediad i'r safle, a chaiff hyn ei egluro wrth gleifion cyn eu hapwyntiad. Pe byddai plentyn yn dod i'r safle, byddai'n rhaid gwrthod trin y claf.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaeth a graddnodi flynyddol a oedd yn gyfredol. Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau yn ddiogel. Fodd bynnag, dangosodd y rheolau lleol eu bod wedi cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2021 ac felly roedd angen eu hadolygu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y rheolau lleol eu hadolygu yn unol ag amodau cofrestru AGIC.**

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd lens y sbectol laser wedi'i ddifrodi rywfaint, a hefyd roedd hen sbectol Goleuni Pwls Dwys wedi'i difrodi a oedd wedi cael ei newid a'i chadw am resymau nad oedd yn glir. Roeddem o'r farn y gallai cadw'r sbectol sydd wedi'i difrodi arwain at risg ddiangen y byddai'n cael ei defnyddio ar gam, neu fel sbectol wrth gefn pe bai'r sbectol heb ei difrodi yn cael ei cholli.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig newid y sbectol sydd wedi'i difrodi er mwyn cydymffurfio â'r rheolau lleol. Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried symud y sbectol sydd wedi'i difrodi o'r clinig er mwyn atal ei defnyddio mewn camgymeriad.**

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell driniaeth i ddangos presenoldeb y peiriant laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd bod drws yr ystafell driniaeth yn cael ei gloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser ac mai dim ond â chod pin sy'n hysbys iddynt hwy yn unig y gellir ei actifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod.

Roedd yr hyn a oedd yn debyg i asesiad risg amgylcheddol ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad, er bod y tudalennau blaen ar goll. Gwelsom fod asesiad risg yn ymwneud â laser/IPL wedi'i gwblhau gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ym mis Mehefin 2023.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copi llawn o'r asesiad risg amgylcheddol cyfredol a gynhaliwyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.**

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r rheolwr cofrestredig yn ceisio cael safbwyntiau'r cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio'r gofal, ac mae'n aelod gweithredol o'r fforwm gwneuthurwyr AW3 i sicrhau arferion gorau wrth ddefnyddio'r laser.

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar bum sampl o gofnodion cleifion gan nodi eu bod o safon dda.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Dean's Lasers and Aesthetics ac yn ei redeg.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod yn ddigonol.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd polisi cwynion manwl ar waith. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod defnyddiwr awdurdodedig y peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ac wedi cael cyfarwyddyd penodol ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad personol parhaus o fewn amrywiol agweddau ar y diwydiant estheteg. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella ei wybodaeth o'r diwydiant ac o ganlyniad yn gwella'r cyngor a ddarperir am opsiynau triniaeth i gleifion.

Am mai'r rheolwr cofrestredig yw'r perchennog a'r unig gyflogai nid oedd cofnodion cynllunio gweithlu'r cyflogeion i'w harolygu.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Rhoddwyd gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol i ni ar gyfer y rheolwr cofrestredig.

Am mai'r rheolwr cofrestredig yw'r unig gyflogai yn y clinig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio gweithlu nac arferion cyflogaeth mewn perthynas â'r cyflogeion.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni ddatryswyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad.** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Dean's Lasers and Aesthetics

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r canlynol gael ei gyflawni ar unwaith:**<br><br>**Pob diffoddwr tân yn yr adeilad i'w wasanaethu a labeli archwiliadau perthnasol i'w rhoi yn eu lle cyn cynnal triniaethau pellach ar y cleifion.** | Rheoliad 26(4a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Gwnaeth Hartson Fire Ltd wasanaethu pob diffoddwr tân a newid unrhyw ddiffoddwyr diffygiol | Mr Dean Cawley | 02/08/2023 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Mr Dean Cawley**

**Swydd: Technegydd Laser**

**Dyddiad: 11/08/23**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Dean’s Lasers and Aesthetics

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben.**<br>• **Cost y triniaethau: dylai'r canllaw o leiaf gyfeirio'r cleifion at y rhestr prisiau ar wahân sydd ar-lein.**<br>• **Crynodeb o' safbwyntiau'r cwsmeriaid**<br>• **Manylion cyswllt AGIC** | Rheoliad 7 (b)(e) ac(f) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Canllaw i gleifion wedi'i diweddaru gyda dolen i'r rhestr prisiau cyfredol a chafeat y gall prisiau newid mewn ymgynghoriad.<br><br>Crynodeb o safbwyntiau'r cwsmeriaid wedi'i ychwanegu o'r datganiad o ddiben.<br><br>Manylion cyswllt AGIC wedi'u hychwanegu mewn sawl adran o'r canllaw i gleifion yn ogystal â gwybodaeth cwmni yswiriant. | Dean Cawley | I'w gwblhau erbyn 18/09/23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod gan y practis asesiad risg tân cyfredol ar waith.** | Rheoliad 26(4)(f) | Asesiad risg tân wedi'i gwblhau ar 03/07/2023 ac wedi'i anfon i AGC ei adolygu. | Dean Cawley | I'w gwblhau erbyn 18/09/23 |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod rheolau lleol laser/IPL cyfredol ar waith. Rhaid i'r rhain gael eu hadolygu'n flynyddol gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn unol â'r amodau cofrestru.** | Safon 16, Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru | Rheolau lleol wedi'u diweddaru gan Mr Simon Wharmby, ein Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, ac wedi'u hanfon i AGC eu hadolygu. | Dean Cawley | I'w gwblhau erbyn 18/09/23 |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y sbectol a oedd wedi'i difrodi yn cael ei newid er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau lleol.** | Rheoliad 15(2) | Mae'r sbectol wedi'i difrodi wedi cael ei gwaredu ac mae'r technegydd yn defnyddio clwt llygad ffoton diogelu laser IPL mewn dur gwrthstaen. | Dean Cawley | I'w gwblhau erbyn 18/09/23 |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copi llawn o'r asesiad risg amgylcheddol cyfredol gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.** | Rheoliad 19(1)(a)(b) a (2)(a) | Asesiad risg wedi'i ddiweddaru gan Mr Simon Wharmby, ein Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, ac wedi'i anfon i AGC ei adolygu. | Dean Cawley | I'w gwblhau erbyn 18/09/23 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Dean Cawley

**Teitl swydd:** Rheolwr Cofrestredig a thechnegydd laser

**Dyddiad:** 12/09/23